PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# CEFNOGI HAWLIAU PLANT CYN OED YSGOL
## CWRICWLWM AR GYFER PLANT 3-5 OED

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu CCUHP; yr hawliau hyn yw'r pethau y mae eu hangen ar blant i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel.*

Mae gan bob plentyn hawliau, doed a ddelo – Erthygl 2





Mae Cwricwlwm y Lleoliadau Nas Cynhelir yn seiliedig ar Hawliau Plant ac yn eu hymgorffori drwyddo; mae hyn yn golygu os ydych chi'n dilyn y cwricwlwm eich bod yn cefnogi CCUHP ac yn cefnogi'r plant i gael mynediad i'w hawliau.

"Drwy greu lle sy'n mynd ati i hyrwyddo gwrando ar lais y plentyn, gallwn ddechrau cydnabod anghenion a chefndir unigryw pob plentyn ac ymateb iddynt, a gall y plant ddechrau deall eu hawliau" (tudalen 7)

Mae Erthygl 3 CCUHP yn dweud 'Dylai pawb sy'n gweithio gyda phlant wneud yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser'.

Mae dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn, lle treulir amser yn arsylwi a gwrando ar y plentyn a'i deulu ac yn creu cysylltiadau â nhw yn allweddol bwysig ac yn elfen ganolog wrth gyflwyno'r cwricwlwm hwn yn effeithiol.



WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY

**Mae Erthygl 12 yn sôn am wrando ar lais y plentyn:**

Os byddwch chi'n gwrando arnaf fi, galla i eich helpu i ddeall fy sefyllfa, gallwch gamu i mewn i'm 'byd', a bydd hyn yn meithrin fy hunan hyder ac yn fy helpu i ymddiried ynoch.

Gwnewch ddigon o amser i wrando arnaf a dangos diddordeb gwirioneddol yn yr hyn sydd gen i i'w ddweud/rannu. Mae'n haws gen i siarad/chwarae gydag oedolyn rwy'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo.

I gael rhagor o wybodaeth am ffyrdd o wrando ar lais plant, ewch i wefan Plant yng Nghymru

I'ch helpu i ddeall, rydyn ni wedi defnyddio'r datganiadau 'mae arna i angen' ar y llwybrau datblygu a nodi'r cysylltiadau penodol ag Erthyglau perthnasol CCUHP; mae nifer o'r datganiadau'n cyfeirio at fwy nag un erthygl ac yn cwmpasu cymorth llawer mwy cyfannol. I weld y rhestr lawn o Erthyglau edrychwch ar y poster Gwybod Dy Hawliau

**Erthygl 6 – Mae gen ti hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach.**

**Erthygl 7 – Dy hawl i enw a chenedligrwydd**

**Erthygl 8 – Dylai'r llywodraeth barchu dy hawl i enw, cenedligrwydd a theulu.**

**Erthygl 12 – Dy hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd, ac i rywun wrando arnat ti**

**Erthygl 17 – Dy hawl i dderbyn gwybodaeth onest rwyt ti'n gallu ei deall**

**Erthygl 19 – Ddylet ti ddim cael dy niweidio a dylet ti gael gofal a'th gadw'n ddiogel.**

**Erthygl 24 – Dy hawl i gael bwyd a dŵr da ac i weld meddyg os wyt ti'n sâl.**

**Erthygl 28 – Dy hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol.**

**Erthygl 29 – Dy hawl i fod y gorau rwyt ti'n gallu bod.**

**Erthygl 30 – Dy hawl i ddefnyddio dy iaith dy hun.**

**Erthygl 31 – Dy hawl i ymlacio a chwarae.**

*Codwyd o Lwybrau Datblygu Cwricwlwm y Lleoliadau Nas Cynhelir*
*A curriculum for funded non-maintained nursery settings (gov.wales)*

## Perthyn

| |
|---|
| Teimlo fel aelod o gymuned y lleoliad -Erthygl 8 a 29 |
| Chwarae (ar fy mhen fy hun, ochr yn ochr ag eraill neu gydag eraill) -Erthygl 31 |
| Gwneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a phethau -Erthygl 7 a 28 |
| Cael fy nghlywed a'm deall -Erthygl 12 |
| Gweld fy hun a phobl fel fi yn cael ein cynrychioli yn fy lleoliad –Erthygl 6 a 7 |

## Cyfathrebu

| |
|---|
| Sylwi ar bethau yn fy amgylchedd -Erthygl 17 |
| Datblygu cydberthnasoedd cymdeithasol -Erthygl 6 a 7 |
| Cyfathrebu -Erthygl 6, 12 a 30 |
| Cael fy nghlywed a chael fy neall -Erthygl 12 a 13 |
| Cael amser i feddwl a phrosesu –Erthygl 29 a 30 |

## Archwilio

| |
|---|
| Archwilio, ymchwilio a darganfod -Erthygl 28 a 31 |
| Rhannu fy chwilfrydedd ag eraill -Erthygl 12 |
| Gwneud cysylltiadau -Erthygl 7 a 28 |
| Datblygu fy nychymyg mewn amrywiaeth o ffyrdd -Erthygl 28 a 31 |
| Creu, cyfathrebu a mynegi fy hun -Erthygl 12 |
| Archwilio symudiad a chyfeiriad, a datblygu fy Ymwybyddiaeth Ofodol - Erthygl 6 a 28 |

## Datblygiad Corfforol

| |
|---|
| Datblygu fy sgiliau motor manwl mewn profiadau go iawn -Erthygl 6 a 31 |
| Profi fy ngalluoedd, herio fy hun yn gorfforol ac archwilio'r hyn rydw i'n gallu ei wneud â'm corff - Erthygl 6 a 28 |
| Gallu dewis sut, pryd a ble i symud -Erthygl 12 |
| Bod yn chwilfrydig ynglŷn â'r ffordd rwy'n gallu rhyngweithio'n gorfforol â'r byd o'm cwmpas - Erthygl 28 |

## Well-being

| |
|---|
| Teimlo'n ddiogel -Erthygl 19 |
| Gwneud dewisiadau -Erthygl 12 |
| Dilyn fy niddordebau fy hun -Erthygl 28 a 29 |
| Dangos fy emosiynau -Erthygl 6 |
| Teimlo cysylltiad â phobl eraill -Erthygl 7 a 28 |
| Teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi -Erthygl 8 a 29 |
| Gweld fy hun a'm byd yn cael ein hadlewyrchu yn fy amgylchedd -Erthygl 7 |



PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**